Rhagair

Mae'r arolygiad hwn o waith troseddwyr ifanc yng Nghasnewydd yn un o nifer fach o gydarolygiadau llawn yr ydym yn eu gwneud yn flynyddol gyda chydweithwyr o'r arolygiaethau cyfiawnder troseddol, gofal a chymorth, iechyd a dysgu a sgiliau.

Fe wnaethom ddewis arolygu yng Nghasnewydd er mwyn cyflawni ailarolygiad yn dilyn canlyniadau gwael yn ystod ein harolygiad llawn ar y cyd yn 2014.

Y gyfradd aildroseddu a gyhoeddwyd ar gyfer Casnewydd oedd 50.5%. Roedd hyn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ac yn uwch na'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr sef 38.0%[1].

Roedd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd (GTI) wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran perfformiad ers yr arolygiad diwethaf. Roedd y GTI yn gryfach o ran asesu a darparu ymyriadau o ansawdd da. Roedd gan Fwrdd Rheoli'r GTI amcanion clir ac roedd yn llwyddiannus o ran sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad at ystod o wasanaethau a gynlluniwyd i'w symud i ffwrdd oddi wrth droseddu. Roedd gwaith i'w wneud o hyd i wella'r gwaith cynllunio i reoli plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, a darparu gwasanaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth cynhwysfawr. Roedd y GTI (YOS) yn ymwybodol o ble roedd angen iddynt wella ac roeddent yn ymdrin â'r problemau yn adeiladol.

Bwriedir i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn gynorthwyo Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd yn ei welliant parhaus drwy ganolbwyntio ar feysydd allweddol penodol.

Y Fonesig Glenys Stacey

Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi

Mehefin 2016

Dyfarniadau allweddol

Lleihau aildroseddu	★★★☆
Diogelu'r cyhoedd	★★★☆
Amddiffyn plant a phobl ifanc	★★☆☆
Sicrhau y cyflawnir y ddedfryd	★★★★
Llywodraethu a phartneriaethau	★★★☆
Ymyriadau i leihau aildroseddu	★★★☆

1 Cafodd y gyfradd aildroseddu a oedd ar gael yn ystod y gwaith maes ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2016, ac roedd yn seiliedig ar gyfraddau aildroseddu deuaidd ar ôl 12 mis ar gyfer carfan Ebrill 2013-Mawrth 2014. Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Crynodeb

Lleihau aildroseddu

Yn gyffredinol roedd gwaith i leihau aildroseddu yn foddhaol. Roedd adroddiadau cyn dedfrydu o ansawdd da yn cael eu darparu i'r llysoedd. Roedd staff yn dda am ymchwilio i'r rhesymau pam bod plant a phobl ifanc wedi troseddu. Nid oedd y broses sicrhau ansawdd yn gwneud yn siŵr bod adolygiadau o asesiadau a chynlluniau o'r safon ofynnol. Nid oedd y GTI yn hyrwyddo manteision y defnydd o'r iaith Gymraeg yn ddigonol. Nid oedd unrhyw strategaeth sgiliau sylfaenol yn bodoli i sicrhau bod lefelau llythrennedd a rhifedd ar gyfer plant a phobl ifanc yn gwella.

Amddiffyn y cyhoedd

Yn gyffredinol roedd gwaith i amddiffyn y cyhoedd a dioddefwyr gwirioneddol neu bosibl yn foddhaol. Roedd adroddiadau i'r llys ac asesiadau cychwynnol o risg o niwed yn ddigonol. Roedd gormod o adolygiadau o asesiadau yn rhai nad oeddent yn cael eu cwblhau yn dilyn newid sylweddol neu roeddent o ansawdd gwael. Nid oedd cynlluniau rheoli risg yn canolbwyntio digon ar faterion dioddefwyr nac ar gynllunio wrth gefn. Nid oedd proses y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd wedi ei gwreiddio o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Amddiffyn plant a phobl ifanc

Yn gyffredinol roedd gwaith i amddiffyn plant a phobl ifanc a'u gwneud yn llai agored i niwed yn anfoddhaol. Roedd adroddiadau i'r llys ac asesiadau cychwynnol o ddiogelu a bregusrwydd yn foddhaol ond nid oedd adolygiadau o asesiadau yn cael eu cynnal neu roeddent yn anghyflawn yn dilyn newid sylweddol. Yn aml, nid oedd cynlluniau yn cynnwys digon o ffocws ar fregusrwydd a sut y dylid ei reoli. Nid oedd y broses sicrhau ansawdd oedd yn bodoli yn effeithiol wrth sicrhau bod ansawdd y gwaith i ymdrin â bod agored i niwed yn ddigonol.

Sicrhau y cyflawnir y ddedfryd

Yn gyffredinol roedd gwaith i wneud yn siŵr bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni yn dda. Roedd adroddiadau ac asesiadau cychwynnol yn dda am adnabod materion amrywiaeth a rhwystrau i gydweithredu. Roedd y GTI yn dda am ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u rhieni / gofalwyr drwy gydol y ddedfryd. Roedd defnydd priodol o weithredu i gydymffurfio a gorfodi yn amlwg yn y rhan fwyaf o achosion. Nid oedd digon o ffocws ar asesu iechyd corfforol a rhywiol plant a phobl ifanc.

Llywodraethu a phartneriaethau

Yn gyffredinol, roedd effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a phartneriaeth yn foddhaol. Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth strategol gyda chynllun a chyfeiriad clir ar gyfer y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd partneriaid yn cael eu dal i gyfrif drwy fframwaith rheoli perfformiad clir. Roedd trefniadau craffu effeithiol yn bodoli ar gyfer Bwrdd Rheoli'r GTI ac roedd cyfranogiad gan aelodau etholedig awdurdodau lleol wrth ymdrin â throseddau ieuenctid. Roedd y GTI yn cael ei arwain yn dda gan dîm rheoli gwybodus.

Ymyriadau i leihau aildroseddu

Yn gyffredinol, roedd ymyriadau i leihau aildroseddu yn foddhaol. Roedd ystod addas o ymyriadau ar gael yn y GTI. Roedd staff yn meddwl yn arloesol am addasu deunyddiau presennol neu greu

rhai newydd i wneud yn siŵr bod yna gyd-drafod â phlant a phobl ifanc. Nid oedd rhwystrau i gydweithredu cadarnhaol yn cael eu nodi bob amser, yn enwedig o ran gwaith oedd wedi canolbwyntio ar gyfer merched a menywod ifanc. Nid oedd canlyniadau o'r ymyriadau newydd neu bresennol wedi cael eu gwerthuso a'u mesur yn llawn.

Argymhellion

Dylai gwaith gwella ar ôl arolygiad ganolbwyntio'n benodol ar gyflawni'r canlyniadau canlynol o fewn 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn:

1. Dylai Bwrdd Rheoli'r GTI sicrhau bod cynllun cynhwysfawr yn ei le i ymdrin â'r holl fylchau a nodwyd yn y modd y darperir gwasanaethau neu mewn perfformiad.
2. Dylai Bwrdd Rheoli'r GTI ddatblygu strategaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sy'n goresgyn rhwystrau i gynnydd, yn gwella sgiliau llythrennedd ac yn cefnogi plant a phobl ifanc i wneud trawsnewidiadau llwyddiannus i gyfleoedd ôl-16.
3. Dylai Bwrdd Rheoli'r GTI sicrhau bod yna strategaeth ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg.
4. Dylai rheolwr y GTI sefydlu prosesau goruchwylio rheoli a sicrhau ansawdd sy'n gadarn ac sy'n cael eu cymhwyso at bob agwedd ar y broses asesu, cynllunio ac adolygu.
5. Dylai rheolwr y GTI sicrhau bod cynlluniau ac adolygiadau o ansawdd da yn cael eu cynhyrchu gan y GTI, yn enwedig mewn perthynas â risg o niwed a bregusrwydd.
6. Dylai rheolwr y GTI sicrhau bod asesiadau sy'n ymwneud ag iechyd corfforol a rhywiol yn cael eu cwblhau, a bod llwybr clir ar gyfer triniaeth neu gymorth yn cael ei sefydlu a'i ddeall gan y staff.
7. Dylai rheolwr y GTI sicrhau bod yn rhaid i bob aelod o staff ddeall Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd a rhaid i'r holl achosion perthnasol gael eu nodi.

Noder - drwy'r adroddiad hwn i gyd mae'r holl enwau y cyfeirir atynt yn yr enghreifftiau o arfer wedi cael eu newid i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.

Cynnwys

Thema 1: Lleihau aildroseddu 5

Thema 2: Diogelu'r cyhoedd..... 9

Thema 3: Amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc 13

Thema 4: Sicrhau y cyflawnir y ddedfryd 18

Thema 5: Llywodraethu a phartneriaethau 22

Thema 6: Ymyriadau i leihau aildroseddu 26

Atodiad 1 Cefndir yr arolygiad 30

Atodiad 2 Diolchiadau 32

Thema 1: Lleihau aildroseddu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Gan mai diben y system cyfiawnder ieuenctid yw atal troseddu gan blant a phobl ifanc, rydym yn disgwyl i bartneriaid cyfiawnder ieuenctid gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus drwy ymgymryd ag asesu a chynllunio o ansawdd da, cyflwyno ymyriadau priodol ac arddangos arweiniad cadarnhaol a rheolaeth effeithiol.

Sgôr asesu achosion

O fewn yr asesiad o achosion, yn gyffredinol roedd 73% o waith i leihau aildroseddu yn cael ei wneud yn ddigon da.

Canfyddiadau allweddol

1. Roedd adroddiadau cyn-dedfrydu o ansawdd da (ACD/PSRs) yn cael eu darparu i'r llysoedd yn y rhan fwyaf o achosion ac roedd asesiadau yn gynhwysfawr, gan ymdrin yn drylwyr â'r ffactorau oedd yn dylanwadu ar droseddu.
2. Roedd staff yn dda am ymchwilio i'r rhesymau pam roedd plant a phobl ifanc wedi troseddu.
3. Roedd staff yn deall egwyddorion arferion effeithiol ac yn dda am gynnal cynnydd plant a phobl ifanc.
4. Nid oedd y broses sicrhau ansawdd yn gwneud yn siwr bod adolygiadau o asesiadau a chynlluniau o'r safon ofynnol.
5. Roedd angen i'r GTI wella'r gwaith o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg.
6. Nid oedd unrhyw strategaeth sgiliau sylfaenol ar waith i lywio'r gwaith o gynllunio a gwella gwasanaethau.

Esboniad o'r canfyddiadau

1. Roedd ACD(PSRs) o ansawdd da yn cael eu darparu i'r llysoedd yn y rhan fwyaf o achosion ac roedd asesiadau yn gynhwysfawr, gan ymdrin yn drylwyr â'r ffactorau oedd yn dylanwadu ar droseddu. Canfuom fod proses sicrhau ansawdd ar waith a oedd yn gwneud yn siwr bod adroddiadau llys yn ddigon trylwyr i alluogi dedfrydwyr i ddedfrydu plant a phobl ifanc yn briodol. Ond roeddem yn barnu bod ansawdd yr adroddiadau a ddarperir i'r panel troseddwyr ifanc yn ddigonol mewn dim ond un rhan o dair o'r achosion. Roedd angen i'r adroddiadau hyn gyfleu mwy o wybodaeth i'r panel ynghylch y risg o niwed a achosir gan y plentyn neu'r person ifanc a pha mor agored i niwed y maent. Mae angen i drefniadau goruchwylio rheoli lleol i sicrhau ansawdd adroddiadau i'r panel ieuenctid gael eu cryfhau.
2. Yn dilyn dedfryd, roedd staff yn cyd-drafod yn dda gyda phlant a phobl ifanc, yn casglu gwybodaeth fanwl, yn arddangos y gallu i ddadansoddi'r wybodaeth honno a chreu casgliadau synhwyrol. Roedd yn amlwg yn y rhan fwyaf o achosion bod y staff yn deall pam roedd plant a phobl ifanc wedi troseddu a'u bod wedi nodi'n gywir y ffactorau a oedd yn cyfrannu at eu troseddu.
3. Roedd adolygiadau o asesiadau wedi'u cwblhau i safon ddigonol mewn ychydig dros ddwy ran o dair o'r achosion. Roedd rheolwyr achos yn aml yn ymwybodol o newidiadau sylweddol yn amgylchiadau'r plant a phobl ifanc, ond nid oedd hyn bob amser yn arwain at adolygiad o asesiad o sefyllfa'r plentyn neu'r person ifanc. Mae adolygiadau yn bwysig

oherwydd y gallant arwain at newidiadau mewn agwedd a'r defnydd o wahanol adnoddau i ymdrin â materion sy'n newid.

4. Roedd cynlluniau ar gyfer gwaith yn y gymuned i leihau aildroseddu yn dda yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd gennym. Roedd rhai cynlluniau nad oeddent yn bodloni'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad, roedd rhai nad oeddent yn ymdrin â threfniadau gofal a chymorth mewn digon o ddyfnder, ac roedd rhai nad oeddent yn cael eu rhoi mewn dilyniant yn ddigonol i gyflawni eu bwriadau. Dau o'r prif feysydd nad oedd yn ymddangos yn amlwg oedd sut y byddai'r GTI yn ymyrryd i ymdrin â chanfyddiad plant a phobl ifanc ohonynt eu hunain ac eraill, neu eu cymhelliant i newid. Roedd adolygiadau o gynlluniau i leihau aildroseddu yn annigonol mewn bron i hanner yr achosion perthnasol. Roedd hyn oherwydd nad oedd rhai adolygiadau yn cael eu diwygio yn ôl yr angen mewn ymateb i gynlluniau neu newidiadau sylweddol, a phan oeddent yn cael eu gwneud roeddent yn aml o ansawdd gwael. Nid oedd gan y GTI broses sicrhau ansawdd a arweinir gan reolwyr ar waith ar gyfer adolygiadau o asesiadau neu gynlluniau. Roedd hwn yn hepgoriad oedd angen ei gywiro.

5. Roedd cynlluniau yn yr achosion hynny lle roedd y plentyn neu'r person ifanc wedi ei ddedfrydu i garchar yn dda ym mhob achos. Roeddem yn teimlo bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gweithio'n dda gyda staff y carchar ac roedd dedfrydau yn cael eu darparu mewn modd integredig.

6. Gwelsom fod ymyriadau a gynlluniwyd i leihau aildroseddu yn gyson â'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad a'r cynlluniau ym mhob un achos perthnasol bron. Roedd deunyddiau ac adnoddau eraill a ddefnyddid o ansawdd da, ac roeddem yn falch o weld nifer o enghreifftiau o ganlyniadau da o ddefnyddio ymyriadau cyfiawnder adferol. Roedd staff yn dda am atgyfnerthu pwyntiau cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc er mwyn lleihau aildroseddu yn y dyfodol.

7. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn deall egwyddorion ymarfer effeithiol yn glir a'r hyn sy'n gweithio o ran lleihau aildroseddu. Roedd adnoddau oedd ar gael i'r GTI i alluogi gwaith yn y gymuned yn dda, a lle y gwelsom ymyriadau roeddent yn cael eu darparu'n dda ac yn gyson. Roedd y staff yn wybodus, yn arddangos medrau da wrth ymwneud â phlant a phobl ifanc ac yn cyflwyno ymyriadau effeithiol a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Yn gyffredinol, roeddem yn barnu bod ansawdd y gwaith i ymdrin ag aildroseddu yn ddigonol mewn dros dri chwarter yr achosion. Gwelsom rywfaint o waith ymddygiad troseddol un-i-un yn cael ei gyflwyno'n fedrus gan staff ond roedd angen i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wneud mwy i herio a hyrwyddo cymhelliant plant a phobl ifanc i newid.

8. Roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn gwella eu lefelau cydweithredu o fewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (ETE). Er bod data a gyhoeddwyd yn dangos nad oedd y GTI wedi cyrraedd ei dargedau hyd yma o ran nifer yr oriau yr oedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth (AHC), roedd data diweddar, sydd eto heb ei gyhoeddi, yn dangos gwelliant da mewn cyfraddau cydweithredu.

Enghraifft o arfer nodedig

Nid oedd Bob, a oedd yn 16 oed, wedi cydweithredu'n dda yn y gorffennol ag unrhyw ddarpariaeth AHC ac roedd yn amharod i wneud hynny eto. Siaradodd y gweithiwr AHC ag ef tra roedd yn y ddalfa i ganfod ei farn am AHC ar ôl ei ryddhau. Yna cadwodd y gweithiwr AHC mewn cysylltiad ag ef wedyn drwy gydol y drwydded i gadw'i ddiddordeb a'i gymhelliant. Wrth wneud hynny, gwnaeth yn siwr ei fod yn mynychu darpariaethau AHC ac yn ei gefnogi i wneud hynny. Unwaith yr oedd y drwydded wedi dod i ben, parhaodd i gynnig cymorth pellach ar sail wirfoddol.

9. Roedd cysylltiadau da gydag ystod o sefydliadau i ddarparu mewnbwn wedi'i dargedu a oedd yn codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc am effeithiau eu hymddygiad troseddol. Er enghraifft, roedd y gwasanaeth ieuenctid yn darparu sesiynau gwerthfawr am gamddefnyddio sylweddau ac alcohol a bu'r gwasanaeth tân yn codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc am ganlyniadau galwadau brys diangen.

10. Nid oedd rhai gweithwyr achos yn deall y ffyrdd gorau i blant a phobl ifanc gael mynediad i'r farchnad lafur yn llawn, ond ychydig iawn o gleientiaid y byddent yn eu cyfeirio am gyngor ac arweiniad arbenigol.

11. Aeth rhai plant a phobl ifanc ymlaen i gyrsiau coleg. Nid oedd cysylltiadau effeithiol na ffurfiol gyda cholegau lleol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn y gefnogaeth orau er mwyn eu galluogi i gael mynediad i goleg a setlo yno.

12. Roedd y gwaith yr oedd llawer o blant a phobl ifanc yn ei gynhyrchu wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau'r GTI yn aml o ansawdd da. Roedd y rhai oedd yn ymwneud â gweithgareddau goruchwylio a gwyliadwriaeth ddwys yn gwella eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant, daearyddiaeth a hanes Cymru. Roeddent yn derbyn adborth defnyddiol, adeiladol am eu hymddygiad. Ond nid oedd digon o ffocws ar roi adborth iddynt a fyddai'n eu hannog neu eu harwain i wella eu sgiliau llythrennedd neu rifedd.

13. Roedd gan y GTI gapasiti digonol i'w alluogi i gwrdd ag anghenion dysgwyr sy'n siarad Cymraeg, ond nid oedd strategaeth i gryfhau'r capasiti hwn. Yn gyffredinol, nid oedd staff yn gwneud digon i hyrwyddo defnydd neu werth y Gymraeg, nac i wella gwerthfawrogiad plant a phobl ifanc o'r potensial yr oedd siarad Cymraeg yn ei gynnig o ran cyflogaeth.

14. Roedd y GTI wedi cyflwyno cynlluniau datblygu unigol a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd cynlluniau datblygu unigol ar gyfer disgyblion cyn-16 yn cynnwys proffil un dudalen defnyddiol ac ystod fechan o dargedau wedi'u cysylltu'n briodol â dyheadau a diddordebau'r disgyblion. Roedd y cynlluniau ar gyfer disgyblion ôl-16 yn mapio eu hamgylchiadau, eu blaenoriaethau a'u hamcanion. Ond nid oedd yna systemau effeithiol i fonitro ansawdd ac effaith y dogfennau hyn. Mewn gormod o achosion, nid oedd yr amcanion a nodwyd ar gyfer dysgwyr yn glir, yn benodol nac wedi'u targedu'n ddigonol. Doedden nhw ddim yn esbonio'n glir sut y gallai unigolion oresgyn rhwystrau i wneud cynnydd a allai fod wedi eu helpu i leihau'r risg o ymddygiad troseddol.

15. Ar gyfer pobl ifanc ôl-16, nid oedd staff yn defnyddio gwybodaeth yn gyson sydd eisoes yn bodoli yn ddigon da; gwybodaeth a fyddai wedi gwella cywirdeb a dibynadwyedd eu hasesiad o amgylchiadau ac anghenion pobl ifanc. Ni roddwyd digon o ystyriaeth i'r manylion a geid yn eu datganiadau o anghenion addysgol wrth gynllunio, fel y gallai staff wneud yn siwr bod pobl ifanc yn derbyn y gefnogaeth orau i'w helpu i lwyddo.

16. Roedd gan lawer o blant a phobl ifanc sgiliau sylfaenol gwael. Wrth gynllunio eu cefnogaeth, nid oedd staff yn rhoi digon o ffocws ar bwysigrwydd gwella sgiliau sylfaenol a pherthynas hynny â lleihau'r risg o aildroseddu. Nid oedd staff yn asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd, ac nid oedd unrhyw ddadansoddiad ynghylch a oedd plant a phobl ifanc yn gwella'r sgiliau hyn o ganlyniad i gysylltu â'r GTI. Nid oedd unrhyw strategaeth sgiliau sylfaenol ar waith i lywio'r gwaith o gynllunio a gwella gwasanaethau.

17. Canfuom fod Rheoli Troseddwyr Integredig wedi'i sefydlu'n gadarn ac yn cael ei weithredu'n dda. Roedd cysylltiadau da rhwng y GTI a Rheoli Troseddwyr Integredig, a chyfleoedd i gynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu rheoli ar y cyd. O ystyried bod Bwrdd Rheoli'r GTI yn ymwybodol bod y GTI yn delio â nifer llai o unigolion mwy toreithiog, byddai hyn yn ffordd synhwyrol ac effeithiol o ymdrin â'r mater hwn.

Crynodeb o'r Data

Mae'r siart canlynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arolygiad o achosion. [DS: arolygwyd 27 achos. Mae'n bosibl na fydd cyfanswm yr atebion yn gyfartal i hyn, oherwydd efallai na fyddai rhai cwestiynau wedi bod yn berthnasol i bob achos]



Thema 2: Amddiffyn y Cyhoedd

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae gan ddioddefwyr, a dioddefwyr posibl, troseddau yr hawl i ddisgwyl bod popeth rhesymol yn cael ei wneud i reoli'r risg o niwed a achosir gan blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu. Disgwyliwn weld asesu a chynllunio o ansawdd da gyda darparu ymyriadau priodol, ac arweiniad gadarnhaol, rheoli effeithiol a gwaith partneriaeth sy'n lleihau'r risg o niwed i eraill.

Sgôr asesu achosion

O fewn yr asesiad achos, yn gyffredinol roedd 68% o waith i amddiffyn y cyhoedd yn ddigon da.

Canfyddiadau allweddol

1. Roedd adroddiadau i'r llys ac asesiadau cychwynnol o risg o niwed yn dda.
2. Roedd gormod o adolygiadau o asesiadau heb eu cwblhau yn dilyn newid sylweddol neu roeddent o ansawdd gwael.
3. Nid oedd cynlluniau rheoli risg yn canolbwyntio digon ar faterion dioddefwyr neu gynllunio wrth gefn.
4. Nid oedd proses y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) wedi ei gwreiddio yn y GTI.
5. Nid oedd ymyriadau i ymdrin â'r risg o niwed yn cael eu cyflwyno bob amser.

Esboniad o'r canfyddiadau

1. Roedd adroddiadau a gynhyrchwyd ar gyfer y llys yn cynnwys esboniad clir o'r risgiau yr oedd plant a phobl ifanc yn eu peri i eraill mewn bron i dri chwarter yr achosion a archwiliwyd gennym. Yn dilyn dedfryd, roedd rheolwyr achos wedi gwneud digon o ymdrech i ddeall ac egluro'r rhesymau pam roedd plentyn neu berson ifanc yn peri risg o niwed i eraill mewn ychydig dros dri chwarter yr asesiadau cychwynnol a welsom, ac roeddent wedi datblygu'r dadansoddiad o adroddiadau cyn dedfrydu yn fwy trylwyr. Ond nid oedd adroddiadau i'r panel ieuenctid yn cynnwys asesiad digonol o risg o niwed ac roedd hwn yn faes i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ei wella.
2. Roedd adolygiadau o asesiadau yn cael eu cyflawni i safon ddigonol mewn dim ond hanner yr achosion perthnasol. Mewn achosion lle roeddem yn ystyried y dylid cael adolygiad, nid oedd dros eu hanner yn cael un neu nid oeddent yn cael eu hadolygu mewn ymateb i newidiadau sylweddol ym mywyd y plentyn neu berson ifanc. Lle cawsant eu cwblhau roeddent yn aml o safon annigonol ac nid oeddent yn cynnwys a dadansoddi'r holl wybodaeth oedd ar gael.
3. Roedd angen i gynlluniau i reoli'r perygl o niwed wella mewn llawer o'r achosion y gwnaethom edrych arnynt. Dim ond hanner oedd yn cyrraedd y lefel ofynnol o ansawdd. Roedd diffygion cyffredin yn cynnwys diffyg eglurder ynghylch trefniadau rhannu gwybodaeth, methiant i roi ymateb digonol i broblemau dioddefwyr, a diffyg manylder mewn cynlluniau wrth gefn. Lle roedd cynlluniau wedi eu cwblhau roeddent wedi cael eu hadolygu yn ddigonol mewn llai na hanner yr achosion cymunedol. Gwelsom fod cynllunio digonol wedi ei wneud yn ystod y rhan o'r ddedfryd a oedd yn cael ei dreulio dan glo ym mron pob un o'r achosion perthnasol.

Enghraifft o arfer nodedig

Nid oedd y rheolwr achos yn deall pam fod angen asesiad risg a chynllun cyn rhyddhau (nid ar ôl). Roedd peth diffyg cysylltiad rhwng cynnwys yr asesiad risg a'r cynllun, a'r cynllun rheoli bregusrwydd, unwaith y byddai'r person ifanc wedi cael ei ryddhau. Roedd yn ymddangos bod y rheolwr achos yn gohirio'r holl benderfyniadau am risg a bregusrwydd i'r panel risg ac ni allai fynegi'r berthynas rhwng y cynllun rheoli risg a'r gweithredu gan y panel risg.

4. Roedd adroddiadau perfformiad manwl yn cael eu darparu i Dîm Rheoli'r GTI, a gofynnwyd amdanynt gan y tîm hwnnw. Roedd y GTI yn gweithredu proses sicrhau ansawdd a oedd yn rhoi casgliad o wybodaeth am ansawdd yr asesiadau a chynlluniau i reolwyr. Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o hyn yn cael ei ddefnyddio i nodi meysydd gwella ar gyfer staff. Canfuom, fodd bynnag, fod goruchwyliaeth gan reolwyr yn effeithiol o ran sicrhau bod ansawdd y gwaith risg o niwed mewn llai na thri chwarter yr achosion a arolygwyd yn ddigonol. Y ddau brif faes oedd angen eu gwella oedd ymdrin â diffygion mewn asesu a chynllunio. Roedd angen i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd yn gadarn, ac yn nodi ac ymdrin â meysydd o wendid yn yr asesiad o'r risg o niwed. Er ein bod wedi gweld proses sicrhau ansawdd, nid oedd y broses honno yn canolbwyntio'n ddigonol ar gynllunio ac adolygu, ac nid oedd yn arwain at y lefel ofynnol o berfformiad yn y maes gwaith hwn. Yn gyffredinol, roeddem yn barnu fod y GTI wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y niwed a achosid gan blant a phobl ifanc yn cael ei gadw i isafswm mewn bron i dri chwarter yr achosion perthnasol.

5. Roedd un swyddog heddlu amser llawn, a oedd yn gyfraniad digonol. Nodasom fod hyn yn ostyngiad o'r ddau swyddog oedd yn bresennol ar adeg yr arolygiad diwethaf. Roedd y swyddog yn cael ei gyd-leoli yn y GTI. Roedd cydleoli o'r fath yn dod â manteision amlwg, yn enwedig mewn perthynas â rhannu cudd-wybodaeth. Roedd y swyddog yn newydd i'r swydd ac roedd yn galonogol gweld bod ganddo gefndir mewn cudd-wybodaeth a rheoli troseddwyr.

6. Nid oedd y swyddog wedi cael hyfforddiant penodol mewn perthynas â gweithio gyda phlant a phobl ifanc eto nac, yn fwy penodol, ar ddiogelu. Roedd hyn yn ddiffyg. Dim ond hyfforddiant cyfyngedig iawn yr oedd y swyddog wedi ei dderbyn ar gam-fanteisio'n rhywiol ar blant hefyd. Roedd gan y swyddog ddealltwriaeth gyfyngedig o broses MAPPA, ac unwaith eto byddai hyfforddiant yn fuddiol o ystyried cyfranogiad posibl y swyddog yn y broses hon. Adolygwyd eu rôl yn ddiweddar yn erbyn model cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, fodd bynnag, byddai'r swyddog yn elwa o ffocws wedi'i ddiffinio'n gliriach ar flaenoriaethau'r rôl.

7. Roedd y swyddog yn gwneud swm sylweddol o waith gweinyddol i wasanaethu'r swyddogaeth cyfiawnder adferol a phanel y biwro (gwaredu y tu allan i'r llys), a gallai hyn yn y pen draw fod ar draul un o flaenoriaethau craidd y swyddog sef rhannu gwybodaeth. Nodwyd yr un mater adeg yr arolygiad diwethaf.

8. Roedd gan y swyddog gyswllt cyfyngedig gyda thimau plismona cymdogaeth. Dylai hyn gael ei wella i gyfrannu'n well at waith y GTI.

9. Gan gyfeirio at MAPPA, clywsom na fu fawr ddim hyfforddiant ar gyfer gweithwyr achos. Roedd yn siomedig nad oedd hyn wedi cael sylw gan ei fod wedi ei grybwyll yn yr adroddiad arolygu blaenorol. Roedd atgyfeiriadau MAPPA wedi cael eu gwneud yn amhriodol a gallai hyn fod yn adlewyrchiad o'r diffyg hyfforddiant hwn. Nid oedd yn glir yn union faint o blant a phobl ifanc oedd yn gymwys am MAPPA. Mae'n hanfodol fod holl staff y GTI yn deall yr hyn sy'n gwneud achos yn gymwys ar gyfer MAPPA, fel y gall y lefel gywir o adnoddau gael eu cymhwyso i reoli'r risg o niwed sy'n gysylltiedig. Dylid cynnal adolygiad o lwyth achosion y GTI a dylid gwneud atgyfeiriadau, lle bo angen, fel mater o frys.

10. Nid oedd yn glir a oedd gwybodaeth am y plentyn neu'r person ifanc a oedd yn cael ei reoli dan MAPPA yn cael ei throsglwyddo, na sut yr oedd hyn yn cael ei wneud, fel y gellir ei chofnodi ar offeryn monitro MAPPA (ViSOR). Byddai hyfforddiant perthnasol, a mynediad i ViSOR gan swyddog heddlu'r GTI, yn gwella'r llif gwybodaeth a'r gwaith cofnodi dilynol.

11. Mae dioddefwyr troseddau a gyflawnir gan blant a phobl ifanc yn cael gwasanaeth da. Er enghraifft, cysylltir â nhw gan swyddog yr heddlu ac ymwelir â nhw gan y gweithiwr dioddefwyr pwrpasol, yng nghwmni swyddog yr heddlu yn aml. Mae'r un lefel o sylw a roddir i ddioddefwyr, waeth beth yw difrifoldeb ymddangosiadol y drosedd, yn arfer da ac nid yn unig mae hyn yn rhoi pwyslais ar gyfiawnder adferol, ond mae hefyd yn rhoi esboniad am gyfraddau bodlonrwydd uchel ymhlith dioddefwyr.

12. Roedd ymyriadau a gyflwynid i reoli'r risg o niwed yn gyson â chynlluniau yn y rhan fwyaf o'r achosion a welsom. Lle nad oeddent, y prif reswm oedd er bod ymyriadau wedi'u nodi nid oeddent wedi cael eu cyflwyno bob amser. Roeddem yn cydnabod, er nad yw'n bosibl yn aml i gyflwyno cynlluniau o ganlyniad i amgylchiadau, roedd yr ymyriadau oedd eu hangen i gyflwyno gwaith risg o niwed yn cael eu cyflwyno drwy gydol y ddedfryd mewn dim ond ychydig dros ddwy ran o dair o'r achosion.

13. Roedd y risg o niwed i ddioddefwyr yn cael ei reoli'n effeithiol mewn dros dri chwarter yr achosion a arolygwyd gennym. Gwelsom mewn rhai achosion nad oedd y dioddefwr wedi cael eu nodi yn glir a, lle roeddent, nid oedd asesu a chynllunio mewn rhai achosion wedi crynhoi'n effeithiol beth oedd y risg i'r dioddefwr neu beth oedd angen ei wneud i'w leihau. Roedd angen i'r GTI wella ei berfformiad yn y maes hwn a gofalu bod rheolwyr achos yn dyfeisio cynlluniau i reoli'n effeithiol y risgiau y mae plant a phobl ifanc yn eu peri i ddioddefwyr.

Crynodeb o'r data

Mae'r siart canlynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arolygiad o achosion. [DS: arolygwyd 27 o achosion. Mae'n bosibl na fydd cyfanswm yr atebion yn gyfartal i hyn, oherwydd efallai na fyddai rhai cwestiynau wedi bod yn berthnasol i bob achos]

Thema 3: Amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

P'un a yw natur fregus plant a phobl ifanc yn bodoli oherwydd canlyniadau eu hymddygiad eu hunain neu ymddygiad pobl eraill, rydym yn disgwyl gweld eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel a bod eu bregusrwydd yn cael ei leihau. Dylai hyn fod trwy asesu a chynllunio o ansawdd da wrth ddarparu ymyriadau priodol, arweinyddiaeth a rheolaeth gadarnhaol, a chyfraniad effeithiol at drefniadau amddiffyn plant aml-asiantaeth.

Sgôr asesu achosion

O fewn yr asesiad achos, yn gyffredinol roedd 63% o waith i amddiffyn plant a phobl ifanc a lleihau eu bregusrwydd yn cael ei wneud yn ddigon da.

Canfyddiadau allweddol

1. Roedd adroddiadau i'r llys ac asesiadau cychwynnol o ddiogelu a bregusrwydd yn dda.
2. Nid oedd adolygiadau o asesiadau yn cael eu gwneud neu roeddent yn anghyflawn yn dilyn newid sylweddol.
3. Yn aml nid oedd cynlluniau yn cynnwys digon o ffocws ar fregusrwydd a sut y dylid ei reoli.
4. Roedd gormod o adolygiadau o gynlluniau o ansawdd gwael.
5. Nid oedd y broses sicrhau ansawdd oedd ar waith yn canolbwyntio ar ansawdd yr adolygiadau.
6. Roedd trefniadau amlasiantaethol cryfach ar waith i reoli bregusrwydd ac roedd gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill wedi gwella.
7. Roedd gwasanaeth anghenion llefaru, iaith a chyfathrebu ar gyfer Gwent gyfan yn ei le ac roedd gweithiwr anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gweithio gyda Throseddau Ieuenctid Casnewydd ddau ddiwrnod yr wythnos.
8. Roedd meini prawf atgyfeirio a llwybrau triniaeth clir yn bodoli ar gyfer camddefnyddio sylweddau a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS).

Esboniad o'r canfyddiadau

1. Roedd y rhan fwyaf o adroddiadau cyn dedfrydu a archwiliwyd gennym yn cynnwys esboniad trylwyr o anghenion y plentyn neu'r person ifanc o ran diogelu a bregusrwydd. Roedd hwn yn faes cryfder i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd ychydig yn llai na thri chwarter yr asesiadau cychwynnol yn dilyn dedfryd o safon dda.
2. Roedd asesiadau yn dda am ystyried: camddefnyddio alcohol a chyffuriau; AHC (ETE); trefniadau gofal a chymorth; materion iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol. Gallai'r GTI wneud gwelliannau pellach drwy sicrhau bod asesiadau yn ymdrin â phob ymddygiad perthnasol a'u bod yn eglur am natur neu lefel bregusrwydd y plentyn neu'r person ifanc.
3. Nid oedd adolygiadau, fodd bynnag, yn ddigon da ond mewn llai na hanner yr achosion perthnasol. Lle nad oeddent yn ddigon da, roedd hyn yn bennaf oherwydd nad oedd yr adolygiad wedi ei gwblhau neu nad oedd wedi ei gwblhau mewn ymateb i newid sylweddol ym mywyd plentyn neu berson ifanc, a oedd felly yn atal y gwaith o gynhyrchu cynllun diweddar i reoli bregusrwydd.
4. Er gwaethaf asesiadau boddhaol mewn llawer o achosion, roeddem yn siomedig i ganfod bod cynlluniau rheoli bregusrwydd yn ddigonol mewn ychydig llai na hanner yr achosion a

welsom. Canfuom ddiffygion sylweddol yn ansawdd y cynllunio wrth gefn ac yn aml nid oedd trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn glir. Er bod rheolwyr achos yn ymddangos yn fwy medrus o ran asesu bregusrwydd, roedd angen iddynt wella eu ffordd o feddwl am sut i ymdrin â a rheoli materion a oedd yn gwneud plant a phobl ifanc yn agored i niwed.

5. Roedd ymyriadau a gyflwynwyd i ymdrin â diogelu a bregusrwydd yn gyson â'r asesiadau mewn bron i dri chwarter yr achosion. Lle nad oeddent, naill ai nid oedd asesiad o'r hyn oedd angen ei wneud neu nid oedd yr ymyriadau a nodwyd wedi cael eu cyflwyno.

6. Roedd adolygiadau o gynlluniau yn wael mewn dwy ran o dair o'r achosion perthnasol a archwiliwyd gennym. Roedd hyn oherwydd nad oedd adolygiadau wedi eu gwneud pan oedd angen hynny neu mewn ymateb i newid sylweddol. Nid oedd hyn yn ddigon da a gallai'r methiant i adolygu cynlluniau mewn ymateb i amgylchiadau oedd yn newid fod wedi arwain at fethiant i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed. Mae angen i ansawdd y gwaith yn y maes hwn wella yn gyflym.

Enghraifft o arfer nodedig

Roedd gan Chris hanes o hunan-niweidio ac roedd yn fwy agored i niwed gan ei fod yn Blentyn wedi Derbyn Gofal, bod ganddo hanes o fynd ar goll o'i gartref a'i fod yn defnyddio cyffuriau. Pan oedd yn y ddalfa cyn ei ddedfrydu, ceisiodd grogi ei hun. Arweiniodd hyn iddo gael ei roi ar Waith Tîm Asesu Gofal yn y Ddalfa wrth fynd i mewn i'r carchar. Ni chafodd ar unrhyw adeg ei asesu fel un agored i niwed gan y GTI yn unrhyw un o dri asesiad Asset2 a gwblhawyd ac ni chynhyrchwyd cynllun rheoli bregusrwydd ar unrhyw adeg. Ni wnaeth y rheolwr achos gyfeirio'r achos at banel risg mewnol y GTI a fyddai wedi rhoi mwy o oruchwyliaeth a her ac wedi rhannu cyfrifoldeb. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o oruchwyliaeth gan reolwyr o ran yr asesiadau, cynllunio nac adolygu.

7. Canfuwyd bod yr ymyriadau oedd eu hangen i reoli diogelu a bregusrwydd yn effeithiol yn cael eu darparu drwy gydol y ddedfryd mewn ychydig dros ddwy ran o dair o'r achosion perthnasol. Y meysydd yr oedd angen mwy o ffocws arnynt oedd camddefnyddio alcohol a gwneud yn siwr bod cynlluniau yn ymdrin â threfniadau gofal a chymorth yn effeithiol. Roedd angen cynllunio mwy effeithiol gan y GTI fel bod pob agwedd ar ddiogelu a bregusrwydd yn cael sylw.

8. Mae goruchwyliaeth rheoli effeithiol yn hanfodol er mwyn gwneud yn siwr bod ansawdd y gwaith o'r safon gywir. Roeddem yn barnu bod goruchwyliaeth gan reolwyr yn effeithiol mewn llai na dwy ran o dair o'r achosion a archwiliwyd gennym. Roedd gan reolwyr wybodaeth ar gael drwy'r broses sicrhau ansawdd ac adroddiadau perfformiad, ond nid oedd hyn yn cael ei ddefnyddio bob amser i wella perfformiad, yn enwedig gan gyfeirio at gynllunio ac adolygu bregusrwydd. Roeddem yn barnu bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i gadw i isafswm y risg o blant neu bobl ifanc yn cael niwed mewn ychydig dros ddwy ran o dair o achosion ac, yn ein barn ni, mae hyn yn gadael cryn le i wella.

9. Canfuom well dealltwriaeth rhwng y GTI a staff gwasanaethau cymdeithasol eraill am eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran lleihau aildroseddu a chyflawni canlyniadau cadarnhaol eraill ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Cyflawnwyd hyn yn rhannol drwy fentrau rheoli, megis digwyddiadau hyfforddi ar y cyd a threfniadau cysgodi ar draws timau.

2 Offeryn asesu strwythuredig yn seiliedig ar ymchwil ac wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i edrych ar drosedd y plentyn neu'r person ifanc, amgylchiadau personol, agweddau a chredoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad troseddol.

10. Roedd ein hadolygiad o achosion yn dangos ystod eang o gyfathrebu rhwng staff y GTI a thimau gwasanaethau plant eraill, a nododd staff y GTI eu bod yn dod yn fwy a mwy cyfarwydd â system rheoli achosion y gwasanaethau plant fel arf defnyddiol i gefnogi hyn. Ni wnaethom weld digon o rannu gwybodaeth ystyrlon i hwyluso asesiad neu gynllunio ar y cyd i sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc.

11. Gwelsom fod gwybodaeth a dealltwriaeth am drothwyon ar gyfer atgyfeiriadau i'r gwasanaethau plant angen eu gwella ymhlith rhai o aelodau staff y GTI. Canfuom hefyd fod ansawdd atgyfeiriadau'r GTI at y tîm dyletswydd ac asesu angen ei wella; yn benodol byddai ansawdd yr atgyfeiriadau wedi elwa o ffocws wedi'i dargedu ar bryderon am ddiogelu a goruchwylio mwy effeithiol gan reolwyr.

Enghraifft o arfer nodedig

Roedd cyfarfodydd diogelu aml-asiantaeth da i weithwyr proffesiynol yn cael eu cynnal yn wythnosol i wneud yn siwr fod yr holl bartneriaid perthnasol (gweithiwr cymdeithasol ôl-16, gwahanol reolwyr achos, gweithiwr cyffuriau, tîm pobl ar goll, yr heddlu) yn ymwybodol o'r problemau a'r newidiadau oedd yn digwydd yn yr achos. Rhannwyd gwybodaeth a chafodd trywyddau ymholi eu dilyn yn briodol.

Enghraifft o arfer nodedig

Cafodd Kim ei asesu fel un oedd ag anghenion dysgu a phroblemau ymddygiad. Roedd y rheolwr achos wedi cynnal asesiad anghenion dysgu ac wedi cysylltu â'r therapydd iaith a lleferydd i gael cyngor ar ymyriadau. O ganlyniad i hyn, roedd ymyriadau wedi'u teilwra i ddiwallu ei hanghenion penodol. Yn ogystal, gwnaeth yr heddlu gais yn y llys am waharddeb ymddygiad gwrthgymdeithasol; dadleuodd y rheolwr achos yn llwyddiannus nad oedd hyn yn briodol o ystyried ei hanghenion dysgu ac mai dim ond yn ddiweddar yr oedd wedi derbyn gorchymyn atgyfeirio ac nad oedd eto wedi cael cyfle i ymgymryd ag unrhyw ymyriadau gyda'r GTI.

12. Roedd llwybrau triniaeth ar gyfer plant a phobl ifanc i waith un-i-un, a gwasanaethau mwy dwys yn ymwneud â lleferydd, iaith a chyfathrebu yn embryonig. Yn unol â hynny, roeddem yn falch o glywed am gynlluniau i ddatblygu'r llwybr hwn yn y dyfodol agos.

13. Roedd meini prawf cyfeirio a llwybrau triniaeth clir yn bodoli i gamddefnyddio sylweddau a CAMHS. Gallai ymyriadau gynnwys darparu cyngor i reolwyr achos neu gymryd rhan mewn gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Oherwydd bod y staff iechyd yn cynnal cysylltiadau â'u hasiantaethau cyflogwyr, roedd yn bosibl cyflymu'r rhai oedd yn ymddangos efo mwy o angen i wasanaethau mwy dwys os oedd angen.

Enghraifft o arfer nodedig

Roedd Fred wedi profi problemau gyda llesiant emosiynol cyn ei ddedfrydu, gan gynnwys bywyd teuluol lle roedd trais domestig yn nodwedd. Roedd problemau gydag alcohol a materion iechyd meddwl yn y teulu a bu farw model rôl gwrywaidd pwysig. Roedd Fred hefyd wedi cael diagnosis o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Roedd wedi meddwl am hunanladdiad ac eisoes wedi ceisio crogi ei hun. Drwy gydol y ddedfryd roedd ei les emosiynol wedi cael blaenoriaeth uchel ac roedd monitro ac ymyriadau perthnasol wedi cael eu cyflwyno yn yr ystâd ddiogel ac ar ôl ei ryddhau ar drwydded. Cafodd ei fregusrwydd ei fonitro ar ôl ei ryddhau trwy banel risg mewnol y GTI, ac roedd gan y gweithiwr arbenigol yn amlwg afael gadarn ar y materion allweddol a oedd yn galluogi staff i'w oruchwylio'n dda, o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a chydag asiantaethau perthnasol eraill.

14. Roedd y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yn defnyddio model ar gyfer newid oedd yn canolbwyntio ar addysgu plant a phobl ifanc am sylweddau niweidiol a chynnal cyfweliadau oedd yn ysgogol. Roedd y gweithiwr wedi mynychu hyfforddiant ymddygiad gwybyddol yn ddiweddar. Mae'r nyrs glinigol arbenigol yn cyflwyno ystod o ymyriadau gan gynnwys therapi ymddygiad dilechdidol a therapi gwybyddol ymddygiadol. Roedd rheolwyr achos yn sgrinio am gamddefnyddio sylweddau neu faterion emosiynol ac iechyd meddwl trwy Asset yn unig. Ond gallent hefyd drafod achosion gyda'r gweithiwr arbenigol perthnasol. Nid oedd hyfforddiant ffurfiol i gynorthwyo sgriniadau yn y meysydd hyn wedi cael ei ddarparu yn ddiweddar. Roedd gweithwyr iechyd yn deall mai rhan o'u rôl yn y GTI oedd addysgu staff am gamddefnyddio sylweddau, neu faterion emosiynol ac iechyd meddwl yn barhaus. O ran effeithiolrwydd y dull hwnnw tuag at addysgu staff, nodwyd gennym fod y staff yn aml yn defnyddio terminoleg feddygol wrth drafod materion emosiynol ac iechyd meddwl.

15. Pe bai rheolwr achos yn rhoi sgôr o ddau neu fwy i blentyn neu berson ifanc ar yr adran berthnasol o Asset, byddai'r rheolwr achos yn trafod rhinweddau gwneud atgyfeiriad at yr arbenigwr camddefnyddio sylweddau neu arbenigwr CAMHS er mwyn gwneud asesiad pellach o anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Mewn achosion perthnasol, byddai atgyfeiriadau wedyn yn cael eu gwneud a byddai'r plentyn neu'r person ifanc yn cael eu gweld.

Crynodeb o'r data

Mae'r siart canlynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arolygiad o achosion. [DS: arolygwyd 27 o achosion. Mae'n bosibl na fydd cyfanswm yr atebion yn gyfartal i hyn, oherwydd efallai na fyddai rhai cwestiynau wedi bod yn berthnasol i bob achos]



Thema 4: Sicrhau y cyflawnir y ddedfryd

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Dylai plant a phobl ifanc gyflawni eu dedfrydau fel y mae'r llys yn bwriadu. Rydym yn disgwyl y bydd y GTI yn gwneud y mwyaf posibl i sicrhau canlyniadau llwyddiannus trwy ymgysylltu effeithiol â nhw a'u teuluoedd, gan ymateb i ffactorau amrywiaeth perthnasol gan gynnwys rhoi sylw i'w hiechyd a'u lles, a chymryd camau priodol os nad ydynt yn cydymffurfio.

Sgôr asesu achosion

O fewn yr asesiad achos, yn gyffredinol roedd 82% o'r gwaith i wneud yn siwr bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni yn ddigon da.

Canfyddiadau allweddol

1. Roedd adroddiadau ac asesiadau cychwynnol yn dda am adnabod materion amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu.
2. Yn gyffredinol, roedd y GTI yn dda am gynnwys plant a phobl ifanc a'u rhieni /gofalwyr drwy gydol y ddedfryd.
3. Roedd y GTI yn cyflawni gofynion y llys yn effeithiol yn y rhan fwyaf o achosion.
4. Roedd y defnydd priodol o gydymffurfio a gorfodi yn amlwg yn y rhan fwyaf o achosion.
5. Nid oedd y GTI bob amser yn ystyried beth oedd dewis iaith y plentyn neu'r person ifanc nac yn hwyluso ei defnyddio.
6. Nid oedd digon o ganolbwyntio ar asesu iechyd corfforol a rhywiol plant a phobl ifanc.

Esboniad o'r canfyddiadau

1. Roeddem yn falch o weld bod materion amrywiaeth a rhwystrau rhag cydweithredu yn cael sylw da yn y rhan fwyaf o'r ACDau a'r asesiadau y buom yn edrych arnynt. Roedd staff wedi gwneud ymdrech glir i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, eu rhieni /gofalwyr neu bobl bwysig eraill er mwyn deall y ffactorau perthnasol.
2. Gofynnwyd i blant a phobl ifanc a oedd wedi cael eu goruchwylio lenwi e-arolwg i roi eu barn am y GTI. Dim ond i ychydig dros hanner y gofynnwyd pa iaith yr oeddent am ei defnyddio yn ystod goruchwyliaeth a theimlai llai na chwarter eu bod wedi gallu defnyddio eu dewis iaith.
3. Roedd bron pawb yn teimlo yn eu hapwyntiad cyntaf bod beth fyddai'n digwydd yn ystod eu gorchymyn yn cael ei egluro'n glir. Dywedodd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc y gofynnwyd iddynt egluro pam eu bod wedi troseddu a'r hyn yr oeddent yn meddwl fyddai'n eu hatal rhag troseddu yn y dyfodol. Roedd y rhan fwyaf hefyd yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt, gyda 72% yn nodi bod eu barn bob amser yn cael ei chymryd o ddifrif ac 15% arall yn dweud bod eu barn yn cael ei chymryd o ddifrif y rhan amlaf. Teimlai bron pob un o'r plant a'r bobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg fod y gwaith yr oeddent wedi'i wneud gyda'r GTI wedi eu gwneud yn llawer llai tebygol o droseddu.
4. Roedd cynllunio cychwynnol yn ymdrin yn ddigonol â rhwystrau i ymgysylltu mewn ychydig llai na dwy ran o dair o'r achosion a welsom. Nid oedd rhwystrau a nodwyd yn yr asesiad bob amser yn llifo drwodd i'r cynllun; un maes penodol a gafodd ei esgeuluso oedd rhwystrau sy'n effeithio ar ferched a menywod ifanc. Roedd y plentyn neu'r person ifanc, eu rhieni /gofalwyr neu bobl eraill pwysig yn cael eu cynnwys yn dda yn y cyfnod cynllunio

mewn ychydig dros dri chwarter yr achosion. Yn y rhan fwyaf o achosion, dros hyd y ddedfryd canfuom fod y GTI yn dda am ymgysylltu.

Enghraifft o arfer nodedig

Ysgrifennwyd cynllun y ddedfryd mewn Saesneg clir ac roedd yn canolbwyntio ar yr hyn y byddai'r person ifanc yn ei wneud gan ddefnyddio datganiadau ‘you’, ‘I’ a ‘will’ . Nid oedd mam y person ifanc yn siarad Saesneg yn dda ac felly cafodd cyfieithydd ei gomisiynu i hwyluso'r cyfweliad.

Dyfyniad gan berson ifanc

"Roeddwn yn siarad llawer gyda fy ngweithiwr GTI. Roedd rhaid i mi edrych ar yr hyn wnes i o'i le a beth roedd rhaid i mi ei wneud i gadw allan o drwbl. Roedd yn anodd achos dydw i ddim yn siarad llawer. Rwy'n falch fod fy ngweithiwr GTI wedi dal ati efo mi. Nid wyf wedi troseddu am 8 mis. Dydy hynny ddim yn ddrwg i mi."

Dyfyniad gan riant

"Rydw i bob amser yn cael gwybod am sut mae fy mab yn gwneud. Rwy'n cael fy ngwahodd i'r cyfarfodydd cynllunio. Dydw i ddim bob amser yn cael dweud beth ddylid ei wneud gyda fy mab."

5. Gofalodd y GTI yn llwyddiannus fod gofynion y ddedfryd yn cael eu bodloni yn y mwyafrif helaeth o achosion. Mewn rhai achosion, roedd ymateb annigonol i anawsterau cydymffurfio. Mewn lleiafrif o achosion, nid oedd gofynion ychwanegol a wnaed gan y llys wedi cael sylw. Pan nad oedd plant a phobl ifanc wedi cydymffurfio, roedd y GTI yn gyffredinol yn dda am weithio i wella cydymffurfiaeth gan ddefnyddio technegau cymhelliant un-i-un a phaneli cydymffurfio. Os oedd angen, roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cysylltu â'r heddlu neu yn dychwelyd unigolion i'r llys priodol. Roedd ymateb y GTI i ddiffyg cydymffurfio yn dda yn y rhan fwyaf o'r achosion a welsom, ac roedd gan bob aelod o staff ddealltwriaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau lleol ar gyfer cefnogi cydweithredu effeithiol ac ymateb i ddiffyg cydymffurfio.

6. Buom yn edrych ar yr asesiad o les corfforol plant a phobl ifanc a sut roedd y GTI yn gwneud yn siwr nad oedd iechyd cyffredinol yn dod yn rhwystr i sicrhau bod amcanion y ddedfryd yn cael eu cyflawni. Canfuom nad oedd unrhyw asesiadau iechyd corfforol yn digwydd. Er bod rheolwyr achos yn asesu anghenion iechyd corfforol plentyn neu berson ifanc fel rhan o'r asesiad Asset, nid oedd unrhyw hyfforddiant ynghylch iechyd corfforol wedi cael ei roi yn ddiweddar i reolwyr achos.

7. Nid oedd asesiad o iechyd rhywiol plant a phobl ifanc yn cael ei flaenoriaethu. Er bod rheolwyr achos a gweithwyr iechyd yn asesu anghenion yn y maes hwn, a bod plant a phobl ifanc perthnasol yn cael eu hasesu i gael mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol generig, nid oedd unrhyw hyfforddiant ffurfiol diweddar wedi cael ei ddarparu yn y maes hwn ac ychydig o ddarpariaeth iechyd rhywiol ffurfiol oedd yna i blant a phobl ifanc oedd yn mynychu'r GTI.

8. Roedd hyn yn siomedig o ystyried ei fod wedi'i nodi fel mater i roi sylw iddo yn ein harolygiad blaenorol. Yn y cyd-destun hwn, roeddem yn falch o gael gwybod am gynlluniau yn y dyfodol agos i asesu iechyd corfforol a rhywiol yn gyffredinol, a statws imiwneiddio plant a phobl ifanc oedd yn mynychu'r GTI drwy gysylltu â gwasanaethau'r nyrs ysgol.

Crynodeb o'r data

Mae'r siart canlynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arolygiad o achosion. [DS: arolygwyd 27 o achosion. Mae'n bosibl na fydd cyfanswm yr atebion yn gyfartal i hyn, oherwydd efallai na fyddai rhai cwestiynau wedi bod yn berthnasol i bob achos]



Thema 5: Llywodraethu a phartneriaethau

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trefniadau llywodraethu, partneriaeth a rheoli effeithiol yn eu lle. Mae'r rhain yn galluogi'r GTI i fodloni amcanion cyfiawnder troseddol cenedlaethol a lleol ac amcanion cysylltiedig, ac i ddarparu a chynnal gwasanaethau o ansawdd da.

Canfyddiadau allweddol

1. Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth strategol a chynllun gyda chyfeiriad teithio clir ar gyfer y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
2. Roedd Bwrdd Rheoli'r GTI yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ac fe'i gwasanaethid gan bartneriaid perthnasol.
3. Roedd partneriaid yn cael eu dal i gyfrif ac roedd tystiolaeth o her adeiladol.
4. Roedd fframwaith rheoli perfformiad gyda thystiolaeth bod materion yn cael eu trosglwyddo i, ac yn cael sylw, gan y Bwrdd Rheoli.
5. Nid oedd y Bwrdd Rheoli wedi gwneud yn siwr, yn absenoldeb cyfraniadau iechyd corfforol i'r GTI, ei fod yn cynnwys gwasanaeth iechyd corfforol i blant a phobl ifanc.
6. Nid oedd y Bwrdd Rheoli wedi rhoi sylw i bob un o'r bylchau a nodwyd mewn darpariaeth gwasanaeth neu berfformiad mewn modd amserol.
7. Roedd trefniadau craffu effeithiol yn bodoli ar gyfer y Bwrdd Rheoli ac roedd cyfranogiad gan aelodau etholedig wrth ymdrin â throseddau ieuenctid.
8. Roedd y GTI yn cael ei arwain yn dda, gan dîm rheoli gwybodus a oedd yn ymwybodol o feysydd i'w gwella. Ond roedd rhai swyddi yn rhai dros dro ac, felly, roedd y strwythur yn fregus.
9. Roedd offer rheoli perfformiad defnyddiol ar gael i gynorthwyo rheolwyr i ymdrin â pherfformiad.

Esboniad o'r canfyddiadau

1. Arweinyddiaeth a llywodraethu - mae troseddu yn cael ei leihau ac mae amcanion eraill o ran cyfiawnder troseddol ac amcanion cysylltiedig yn cael eu bodloni

1.1. Roedd arweinyddiaeth strategol wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf. Roedd y Bwrdd Rheoli yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac roedd presenoldeb ac ymgysylltiad partneriaid perthnasol yn well nag yr oeddem wedi canfod yn flaenorol. Roedd partneriaid yn cael eu dal i gyfrif ac roedd tystiolaeth o her adeiladol. Gwelsom fframwaith rheoli perfformiad yn datblygu, a thystiolaeth bod materion yn cael eu trosglwyddo i, ac yn cael sylw, gan y Bwrdd.

1.2. Roedd trefniadau partneriaeth clir ac ymrwymiad i wneud yn siwr bod gan blant a phobl ifanc fynediad at wasanaethau oedd eu hangen. Canfuom drefniadau craffu effeithiol ar gyfer y Bwrdd a chyfraniad clir gan aelodau etholedig awdurdodau lleol i ymdrin â throseddau ieuenctid.

1.3. Roedd lefel y wybodaeth fanwl am berfformiad a ddarperid ar gyfer y Bwrdd yn dda. Y cam nesaf oedd gwneud yn siwr fod y data yn cael ei groesholi'n ddigonol i allu deall y problemau a datblygu cynlluniau effeithiol i ymdrin â nhw. Roeddem yn

meddwl y gallai'r Bwrdd wella ei effeithiolrwydd drwy wneud yn siwr ei fod yn nodi bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir neu mewn perfformiad mewn modd amserol. Dylai'r Bwrdd hefyd archwilio sut y gallai gael barn defnyddwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau.

1.4. Roedd uwch reolwyr yn gallu dangos yn glir eu bod yn rhoi pwyslais ar y gwasanaethau rheng flaen yn y GTI. Dywedodd y staff eu bod yn ystyried bod yr uwch reolwyr yn weladwy, yn hygyrch ac yn gyffredinol fod cyfathrebu a pherthynas waith rhwng y GTI a thimau gwasanaethau plant eraill yn gadarnhaol ac yn adeiladol.

1.5. Er eu bod yn dangos arwyddion o welliant, canfuom fod trefniadau rheoli tîm a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn y GTI yn embryonig ac yn parhau yn fregus ar adeg yr arolygiad.

1.6. Roeddem yn falch o weld cyfraniad yr heddlu yn eu dadansoddiad o ddata troseddau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Rheoli. Roedd hyn yn galluogi'r grwp i ddeall patrymau troseddu a thueddiadau oedd yn dod i'r amlwg, ac ymateb yn unol â hynny. Roedd hyn yn arfer da ac yn dystiolaeth o ymrwymiad cryf i welliant parhaus.

1.7. Dywedwyd wrthym am ostyngiadau trawiadol yn nifer y rhai oedd yn dod i mewn am y tro cyntaf. Rydym wedi nodi pwyslais sylweddol ar waith ataliol a gallai hyn fod yn un esboniad. Yr un mor arwyddocaol, fodd bynnag, efallai yw'r gostyngiad o ran gweithgarwch yr heddlu ar y stryd. Efallai y byddai'r Bwrdd yn dymuno dadansoddi'r ffigurau yn fanylach er mwyn canfod y rhesymau am y gostyngiad.

1.8. Ceir cynrychiolaeth gan iechyd ar Fwrdd Rheoli'r GTI. Er bod hyn ar ffurf rheolwr CAMHS ar gyfer Gwent, mae ei swydd uwch ef yn perthyn o fewn cyfarwyddiaeth teuluoedd a therapïau iechyd. Mae ef felly, yw uwch reolwr sydd wedi ei ymgorffori yn y gyfarwyddiaeth sy'n gyfrifol am iechyd plant mewn ysgolion a chanolfannau iechyd yng Nghasnewydd. Cawsom ein sicrhau ei fod yn gallu cynrychioli materion iechyd cyffredinol i'r Bwrdd ac yn ôl i'r gyfarwyddiaeth teuluoedd a therapïau.

1.9. Roedd y Bwrdd Rheoli wedi cychwyn adolygiad defnyddiol o waith AHC (ETE) y GTI, a nododd nifer o gryfderau, yn enwedig wrth ddatblygu a chydlynu darpariaeth a chefnogaeth addysg cyn-16. Roedd uwch arweinwyr a rheolwyr yn derbyn gwybodaeth reolaidd am gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn AHC. Ond nid oedd dulliau effeithiol ar waith i ddadansoddi a gwerthuso effaith y gefnogaeth i wneud yn siwr bod pobl ifanc ôl-16 yn gwneud y cynnydd gorau o ran lleihau ymddygiad aildroseddu. Er bod staff yn cydnabod bod diffyg ymgysylltu ag AHC yn cynyddu'r risg o blant a phobl ifanc yn aildroseddu, nid oedd unrhyw ddadansoddiad o ba mor dda yr oedd plant a phobl ifanc yn symud ymlaen yn llwyddiannus i AHC. Roedd Gyrfa Cymru wedi canfod bod tua dwy ran o dair o blant a phobl ifanc yn rhoi'r gorau i symud ymlaen i gyfleoedd ar gyfer AHC, ond nid oedd gan y GTI strategaeth i ymdrin â hyn nac i feincnodi gwelliant. Nid oedd yr adnoddau a ddyrannwyd i ddilyniant ôl-16 pobl ifanc i AHC yn ddigonol i'w galluogi i gael digon o arweiniad a chefnogaeth amserol, wedi'i dargedu i'w hanghenion unigol nhw.

2. Partneriaethau - mae partneriaethau effeithiol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol

2.1. Canfuom fod y GTI wedi'i ymgorffori'n effeithiol o fewn strwythur ehangach y gwasanaethau plant. Roedd tystiolaeth o grwpiau staff yn gallu mynegi

dealltwriaeth o amcanion a rolau ei gilydd, ac ymdeimlad o'u gallu i ddylanwadu ar y meysydd gwaith hynny. Er enghraifft, cyfranogiad gwirioneddol rheolwr y GTI mewn cyfarfodydd rheoli chwarterol y gwasanaeth plant a theuluol.

2.2. Gwelsom fod y cyfarwyddwr strategol ar gyfer pobl, yn ogystal â Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, wedi cymryd rhan gadarnhaol yn y broses wella ers yr arolygiad diwethaf. Maent wedi dangos ymrwymiad a brwdfrydedd, ac roeddent yn gallu mynegi gweledigaeth ar gyfer mwy o integreiddio rhwng y GTI a rhannau eraill o'r gwasanaethau plant, gan gynnwys cynllunio ar y cyd ar gyfer gweithredu *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,* a gweithredu Asset +.

2.3. Roedd y GTI wedi datblygu dull da, cydweithredol o weithio mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd lleol, yr Uned Atgyfeirio Disgyblion, a staff allweddol awdurdodau lleol a oedd yn gyfrifol am bresenoldeb ac ymddygiad dysgwyr mewn ysgolion. Roedd yn cyfarfod â'r sefydliadau hyn yn wythnosol ac yn gwneud cyfraniad da tuag at y bartneriaeth effeithiol hon a oedd yn galluogi plant cyn-16 i aros yn gysylltiedig ag addysg. Roedd trefniadau da ar waith i rannu gwybodaeth gydag ysgolion a'r awdurdod lleol. Roedd gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn dda fel bod y GTI yn cael gwybod am y cynnydd yr oedd ei blant a'i bobl ifanc yn ei wneud ac am y gefnogaeth ychwanegol yr oedd arnynt ei hangen. Roedd ysgolion a staff yr awdurdod lleol yn gwerthfawrogi'r wybodaeth roedd y GTI yn ei darparu am ddisgyblion sydd mewn perygl o droseddu neu a oedd yn hysbys i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd cynlluniau wrth gefn effeithiol ar waith i sicrhau bod y GTI yn cyflawni'r rôl bwysig hon o rannu gwybodaeth os nad oedd aelodau allweddol o staff ar gael. Roedd staff y GTI hefyd yn cefnogi fforymau awdurdodau lleol ac ysgolion yn dda i gryfhau ystod y ddarpariaeth ar gyfer plant cyn-16, megis datblygu lleoliadau profiad gwaith estynedig.

2.4. Roedd yr awdurdod lleol wedi tynnu at ei gilydd lawer o asiantaethau cymorth i adolygu cynnydd dysgwyr ôl-16 nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yn fisol. Gwnâi'r GTI gyfraniad da i'r grŵp hwn, gan rannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc mewn modd a oedd yn galluogi asiantaethau cefnogi eraill i gynllunio ymyriadau a fyddai'n eu helpu i symud ymlaen i gyfleoedd eraill, neu wella eu gallu i symud ymlaen i gyfleoedd. Roedd y dull amlasiantaethol hwn wedi arwain at weithredu prydlon i wneud yn siŵr bod y mwyafrif o blant a phobl ifanc yn cael cymorth ychwanegol i wella eu cydweithrediad.

2.5. Roedd partneriaeth dda gyda Gyrfa Cymru. Roedd cynrychiolydd Gyrfa Cymru yn eistedd ar Fwrdd Rheoli'r GTI, ac roedd cynghorydd gyrfa yn mynychu'r GTI am hanner diwrnod yr wythnos. Ond roedd tua hanner y plant a'r bobl ifanc nad oeddent yn mynychu apwyntiadau eu cyfarwyddyd gyrfaoedd. Golygai hyn na ellid defnyddio amser cynghorydd gyrfaoedd yn effeithiol ac mewn ffordd wedi'i chynllunio i wella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'r farchnad lafur, y cyfleoedd sydd ar gael iddynt o ran dilyniant , neu i'w cynorthwyo i wneud dewisiadau deallus.

3. Rheoli'r Gweithlu - mae rheoli'r gweithlu'n effeithiol yn cefnogi cyflwyno gwasanaeth o safon

3.1. Gwelsom fod y GTI yn cael ei arwain yn dda, gyda thîm rheoli gwybodus a oedd yn canolbwyntio ar berfformiad ac ansawdd, ac a oedd yn ymwybodol o feysydd lle yr oedd angen iddynt wella. Roedd fframwaith rheoli perfformiad ac arfau

effeithiol ar gael i gynorthwyo rheolwyr i ymdrin â pherfformiad, a gwelsom dystiolaeth o oruchwyliaeth reolaidd.

3.2. Roeddem yn teimlo bod y broses sicrhau ansawdd yn caniatáu i reolwyr nodi gwelliannau angenrheidiol, ond nad oedd pob maes gwaith yn rhan o'r broses hon, er enghraifft, adolygiadau. Ar ben hynny, roedd angen i oruchwyliaeth gan reolwyr fod yn fwy cadarn wrth wneud yn siŵr fod camau angenrheidiol yn cael eu cwblhau.

3.3. Nid oeddem yn argyhoeddedig fod y GTI yn cymryd rhan yn weithredol ar y lefel gywir ym mhob gweithgaredd amlasiantaethol angenrheidiol, er enghraifft, nid oedd unrhyw dystiolaeth o bresenoldeb rheolwyr yn y fforwm cam-fanteisio'n rhywiol ar blant.

3.4. Gwelsom fod y GTI wedi ei integreiddio'n well i'r gwaith ehangach o gyflenwi gwasanaethau i blant a'i fod yn datblygu ei ffocws ar ymyriadau a gynlluniwyd i ymdrin ag aildroseddu.

3.5. Er eu bod yn dangos arwyddion o welliant, canfuom fod trefniadau rheoli tîm a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn y GTI yn embryonig ac yn parhau yn fregus ar adeg yr arolygiad.

3.6. Roedd system dda ar gyfer rheoli staff iechyd yn y GTI. Derbyniai'r nyrs glinigol arbenigol oruchwyliaeth glinigol gan y swyddog iechyd meddwl arweiniol ar gyfer Gwent, ac roedd yn cael ei goruchwylio yn weithredol gan reolwr y GTI. Roedd y gweithiwr camddefnyddio sylweddau yn cael ei oruchwylio gan ei reolwr llinell o Barnardo's a rheolwr y GTI. Roedd y gweithiwr iaith a lleferydd yn cael ei oruchwylio gan reolwr y gwasanaeth iaith a lleferydd lleol a rheolwr gweithredol yn y GTI. Roedd hyn yn ymddangos fel pe bai yn gweithio'n dda gan fod pob gweithiwr yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

4. Sefydliad dysgu - mae dysgu a gwella yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol

4.1. Gwelsom dystiolaeth fod y GTI yn gorff sy'n dysgu ac yn hyrwyddo diwylliant sy'n edrych ar faterion perfformiad neu ansawdd a nodwyd fel cyfleoedd i ddysgu a gwella. Nid oedd y sefydliad bob amser yn llwyddiannus gyda'r dull hwnnw fel y gwelsom yn llwyddiant rhannol proses sicrhau ansawdd y GTI.

4.2. Cawsom ein plesio gan y buddsoddiad diweddar mewn lleihau aildroseddu ymhlith poblogaeth y Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghasnewydd, yn enwedig ymysg plant a phobl ifanc a oedd yn cael eu lleoli mewn lleoliadau preswyl. Mynegodd staff mewn timau Plant sy'n Derbyn Gofal a gwasanaethau preswyl y graddau y maent yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau arloesi a ddarperir gan swyddogion adferol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Awgrymodd arwyddion cynnar y gallai aildroseddu gael ei leihau yn sylweddol ymhlith y garfan hon o ganlyniad i'r gwaith hwn.

4.3. Mewn perthynas ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, roedd gwasanaeth ar gyfer Gwent gyfan bellach yn bodoli ac roedd gweithiwr yn gweithio gyda Throseddau Ieuenctid Casnewydd ddau ddiwrnod yr wythnos. Roedd sgrinio ffurfiol ar blant a phobl ifanc yn digwydd ac roedd rheolwyr achos wedi cael hyfforddiant o ran nodi anghenion o'r fath. Roedd hwn yn argymhelliad gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o'r arolygiad diwethaf.

4.4. Roeddem yn falch o weld bod y GTI wedi canolbwyntio ar y nifer uchel o blant a phobl ifanc sy'n mynd i'r ddalfa. Roedd rheolwr arweiniol wedi archwilio pam fod y

cyfraddau yn uchel ac wedi nodi nad oedd cynigion adroddiadau i'r llys yn cynnig dewisiadau cadarn eraill yn lle'r ddalfa. Roedd cyswllt da gyda dedfrydwyr i archwilio'r hyn y gallai'r GTI ei gynnig ar ffurf dedfrydau cymunedol. Roedd hyn yn galluogi dedfrydwyr i fod yn hyderus bod dedfrydau cymunedol yn gallu cyflwyno rhaglen strwythuredig i ymdrin ag aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd. Roedd adroddiadau wedi gwella drwy gynnig dedfrydau cymunedol priodol ac roedd cyfraddau'r rhai a gedwid yn y ddalfa wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad.

Thema 6: Ymyriadau i leihau aildroseddu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio'n benodol ar ymyriadau a fwriedir i leihau aildroseddu. Rydym yn disgwyl gweld ystod eang o ymyriadau o ansawdd yn cael eu cyflwyno'n dda, ynghyd ag asesiadau a chynlluniau sy'n sicrhau'r tebygolrwydd mwyaf o gyflawni canlyniadau cynaliadwy. Mae angen i arweinyddiaeth effeithiol a gwaith partneriaeth fod yn amlwg wrth ddarparu ymyriadau.

Sgôr asesu achosion

O fewn yr asesiad achos, yn gyffredinol roedd 77% o waith yn ymwneud ag ymyriadau i leihau aildroseddu yn cael ei wneud yn ddigon da.

Canfyddiadau allweddol

1. Roedd ystod addas o ymyriadau ar gael yn y GTI.
2. Roedd staff yn meddwl yn arloesol am addasu deunyddiau presennol neu greu rhai newydd i wneud yn siŵr bod yna ymwneud â phlant a phobl ifanc.
3. Roedd asesiadau i bennu pa mor addas a chymwys oedd yr ymyriadau yn gyffredinol yn cael eu cynnal yn ddigonol.
4. Roedd rheolwyr achos oedd yn darparu ymyriadau yn frwdfrydig ac yn ymroddedig.
5. Nid oedd cynlluniau i ddarparu ymyriadau angenrheidiol bob amser yn cael eu diweddaru'n briodol.
6. Nid oedd rhwystrau i gydweithredu cadarnhaol yn cael eu nodi bob amser, yn enwedig o ran gwaith wedi'i ffocysu gyda merched neu fenywod ifanc.
7. Nid oedd canlyniadau o'r ymyriadau newydd neu bresennol wedi cael eu gwerthuso a'u mesur yn llawn.

Esboniad o'r canfyddiadau

1. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd asesiadau i bennu addasrwydd ymyriadau a fyddai'n arwain at leihau aildroseddu yn ddigonol, yn glir ac yn cael eu cwblhau o fewn amserlenni priodol.
2. Roedd rheolwyr achos oedd yn darparu ymyriadau yn gyffredinol yn frwdfrydig ac wedi eu paratoi'n dda ar gyfer sesiynau. Roedd ganddynt gynlluniau clir o'r hyn y dymunent ei gyflawni ac roeddent yn gallu addasu cynnwys y deunydd a'r dull o'i gyflwyno. Roeddent yn fedrus o ran cadw plant a phobl ifanc i ganolbwyntio ar nodau ac amcanion y sesiwn.
3. Roedd cynllunio cychwynnol i benderfynu pa ymyriadau a fyddai'n cael eu darparu a sut y byddent yn cael eu cyflwyno yn cael ei wneud yn ddigon da yn y mwyafrif llethol o achosion. Ond roedd yna rai enghreifftiau lle nad oedd rheolwyr achos wedi nodi ac ymdrin ag anghenion unigol a rhwystrau i gydweithredu. Er enghraifft, anaml yr oedd cynlluniau yn nodi'r angen am ymyriadau penodol ar gyfer merched neu fenywod ifanc, neu i ymdrin ag anghenion amrywiaeth eraill fel hil ac ethnigrwydd.
4. Roedd gan rieni /gofalwyr ran ystyrlon yn y gwaith o gynllunio ar gyfer ymyriadau ac ystyrid nhw fel chwaraewyr allweddol wrth gyflawni canlyniadau llwyddiannus i blant a phobl ifanc.
5. Roeddem yn falch o nodi bod digon o gynllunio ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny oedd yn y ddalfa, ac yn y mwyafrif o achosion yn y gymuned. Roedd y GTI wedi buddsoddi

mewn gweithwyr adsefydlu, a oedd yn gweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc yn y ddalfa ar sail wirfoddol. Byddent yn mynd gyda rheolwyr achos a gweithwyr o asiantaethau eraill, fel Gyrfa Cymru, i gyfarfod â'r plant a'r bobl ifanc yn y ddalfa. Roedd hyn yn helpu i gynllunio i ddiwallu eu hanghenion cyn eu rhyddhau, gan gefnogi'r gwaith o gyflwyno dedfryd wedi'i hintegreiddio'n dda.

6. Gwelsom 11 o ymyriadau a oedd yn cynnwys cyfuniad o sesiynau un-i-un, panel gorchymyn atgyfeirio, a chyfarfod cynllunio risg a bregusrwydd. Gwelsom ymyriadau yn cael eu cyflwyno yn y GTI ei hun, ond fe wnaethom hefyd ymweld â lleoliadau megis fferm gymunedol a gorsaf dân. Roedd staff hefyd yn fodlon teithio i leoliadau oedd gryn dipyn ymhellach i ffwrdd, megis y Pwll Mawr/Big Pit[3], neu gestyll lleol, i ysgogi ac addysgu plant a phobl ifanc a gwella eu gwybodaeth am eu treftadaeth.

7. Roedd paratoad da ar y gwaith o gynllunio ar gyfer darparu ymyriadau ac roedd y staff yn adnabod y plant neu'r bobl ifanc, a'r deunydd yr oeddent yn ei ddefnyddio, yn dda.

8. Ystyriai'r arolygwyr fod plant a phobl ifanc wedi cael eu paratoi'n dda ar gyfer caniatáu i'r arolygydd arsylwi a dangos perthynas gadarnhaol / barchus gyda staff y GTI. Roedd ffiniau ynghylch ymddygiad priodol yn cael eu cynnal yn fedrus gan y staff y GTI.

9. Roedd y gwaith o gyflwyno ymyriadau yn ddiddorol ac yn cael ei gyflwyno ar gyflymder priodol ac ar lefel addas i'r unigolyn. Er enghraifft, roedd y gweithdy ar losgi bwriadol yn yr orsaf dân yn ysgogol iawn ac yn enghraifft dda o gysylltu'r deunydd ag amgylchiadau personol y plentyn neu'r person ifanc.

10. Roedd staff yn meddwl yn greadigol ac roeddent wedi datblygu nifer o ymyriadau newydd, er enghraifft, gweithdy un-i-un ar losgi bwriadol, a oedd wedi ei ymchwilio a'i ddatblygu gan y swyddog adferol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Cawsom gyfle hefyd i weld y DVD ar siopladrad a baratowyd gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd. Ystyrid ei fod yn ddefnyddiol oherwydd y gallai'r plentyn neu'r person ifanc gysylltu â'u hamgylchedd lleol, canolfan siopa a gorsaf yr heddlu.

11. Roedd tystiolaeth dda fod safbwynt y dioddefydd a chanlyniadau ymddygiad troseddol ar eraill yn cael sylw drwy'r cyfan. Roedd cyflwyno'r gweithdy ar ymosod yn enghraifft dda o weithiwr y dioddefwyr a'r rheolwr achos yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a helpu'r plentyn neu'r person ifanc i gydweithredu.

12. Yng nghyfarfod panel y gorchymyn cyfeirio, roedd arolygwyr yn falch o nodi, wrth gau gorchymyn cyfeirio, bod y rheolwr achos yn cymryd amser i egluro bod y gollfarn yn awr wedi ei diweddu oni bai bod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gofyn am wiriad manylach[4]. Ond yr oedd yn destun pryder mewn achos arall nad oedd y person ifanc, yr oedd ei gydymffurfiaeth yn broblem, yn cael ei annog i gydnabod difrifoldeb a goblygiadau peidio â chydymffurfio ymhellach yn ystod y cyfarfod.

13. Roedd ystod dda o ymyriadau ar gael yn y GTI i gefnogi ymatal, er y gallai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fod wedi elwa ar eu coladu mewn llyfrgell, boed yn gorfforol neu'n electronig, i sicrhau bod yr holl staff yn gwybod beth sydd ar gael iddynt.

3 Mae Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru yn amgueddfa treftadaeth ddiwydiannol ym Mlaenafon, Torfaen, De Cymru.
4 Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae'n disodli'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Enghraifft o arfer nodedig

Cafodd Angie, a oedd yn 16 oed, orchymyn ailsefydlu ieuenctid (YRO) 12 mis gyda chyfnod o 4 mis o brofi am gyffuriau a gorchymyn triniaeth ar gyfer amrywiaeth o droseddau yn ymwneud â'r ffaith ei bod yn gaeth i heroin. Roedd yn Blentyn oedd yn Derbyn Gofal ac yn byw mewn amrywiaeth o leoliadau cefnogol drwy gydol y gorchymyn. Yn arloesol, gweithiodd y rheolwr achos ar y cyd â'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc (YPSMS) i ddatblygu cytundeb drafft rhwng y person ifanc, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'r YPSMS i gytuno iddi ymgymryd a phrofion a thriniaeth ar gyfer cyffuriau fel rhan o YRO, pe bai yn cael ei osod gan y llys. Cymerodd y llys gyngor y rheolwr achos a gosododd y gorchymyn; y cyntaf yn yr ardal. Wrth adolygu, gwelwyd nad oedd hi bellach yn cymryd cyffuriau dosbarth A, ac nid oedd wedi aildroseddu. Cafodd y gorchymyn, felly, ei ddiddymu am wneud cynnydd da, canlyniad llwyddiannus.

14. Yn gyffredinol, roedd ymarferwyr y GTI yn darparu ymyriadau i leihau aildroseddu, ond nid ydynt bob amser yn nodi bod angen adolygu'r gwaith hwn, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol ar ôl newidiadau sylweddol ym mywyd plentyn neu berson ifanc. Nid oedd cynlluniau yn newid i gwrdd â'r newidiadau ym mywydau plant a phobl ifanc. Lle'r oedd bylchau, roedd y rhain yn tueddu i fod mewn meysydd pwysig megis y teulu a pherthnasoedd personol, meddwl ac ymddygiad, hunan-ganfyddiad a chymhelliant i newid.

15. Ystyriai'r arolygwyr fod angen i staff wella'r modd yr oeddent yn cofnodi'r ymyriadau yr oeddent wedi eu cyflawni. Clywsom am rai ymyriadau diddorol, ond nid oedd y rhain yn cael eu cofnodi'n effeithiol bob amser.

16. Wrth arolygu'r achosion, nid oedd arolygwyr yn gweld digon o bwyslais ar ymyriadau i reoli'r risg o niwed i eraill, neu fregusrwydd y plant a'r bobl ifanc eu hunain. Ond lle roedd angen, yr oedd digon o waith yn cael ei wneud i wella addysg neu hyfforddiant plentyn neu berson ifanc, eu ffordd o fyw ac i ymdrin â materion camddefnyddio sylweddau.

Enghraifft o arfer nodedig

Roedd gan Bill, a oedd yn 16 oed, hanes o dorri amodau ei orchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBO). Er i hynny gael ei nodi ar ei gynllun dedfryd a'i gynllun ymyrraeth gymunedol, ni wnaeth ar unrhyw adeg yn ystod ei orchymyn ymgymryd ag unrhyw ymyriadau i ymdrin â hyn. Nid oedd yn droseddwr mynych nac yn cael ei ystyried yn un oedd yn peri risg uchel o niwed i eraill, ac o ganlyniad derbyniodd ddedfryd o gaethiwed o bedwar mis am dorri ei ASBO. Parhaodd y canlyniadau aflwyddiannus oherwydd yn fuan ar ôl diwedd ei gyfnod yn y ddalfa a thrwydded ei orchymyn cadw, derbyniodd YRO naw mis am dorri ei ASBO ymhellach am gamwedd gymharol fach yn erbyn amodau'r ASBO.

17. Ni welsom unrhyw gasgliad bron o adborth gan blant a phobl ifanc yn y cyfnod adolygu. Nid oedd yn glir pa effaith a gafodd yr ymyriadau ar ymgorffori newid. Nid oedd unrhyw fecanweithiau na systemau ar waith i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd yr holl ymyriadau a ddarperir, er mwyn sicrhau y gallai canlyniadau llwyddiannus gael eu hailadrodd.

18. Roedd gan reolwyr achosion berthynas gadarnhaol a pharchus gyda'r plant a'r bobl ifanc yr oeddent yn eu goruchwylio. Roeddent yn gallu herio eu barn yn briodol a'u helpu i fyfyrio ar ymddygiad blaenorol, y cynnydd yr oeddent wedi ei wneud a datblygu cynlluniau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Roedd staff yn cadarnhau dewisiadau da a phenderfyniadau cadarnhaol oedd yn cael eu gwneud gan blant a phobl ifanc.

Dyfyniadau gan blant a phobl ifanc

"Doeddwn i ddim yn hoffi casglu'r sbwriel. Ydy - mae'n helpu i gadw'r strydoedd a'r parciau yn lân, ond wnes i ddim dysgu unrhyw beth. Roedd peintio'r ffensys yn well achos dwi'n gwybod rwan beth mae'n rhaid i chi ei wneud, pa frwsys i'w defnyddio ar gyfer gwahanol bethau. Efallai y gallwn gael swydd yn gwneud hynny."

"Fel rhan o fy helpu i ddeall fy nhrosedd - llosgi bwriadol - roedd rhaid i mi ymweld â'r Gwasanaeth Tân. Siaradodd y swyddogion tân gyda mi mewn ffordd gyfeillgar ac fe wnaethon nhw fy helpu i sylweddoli faint o niwed y gallwn i fod wedi ei achosi. Gallwn fod wedi lladd rhywun. Rwy'n falch fy mod wedi gallu siarad â nhw. Fydda' i ddim yn mynd i unrhyw drafferth eto."

19. Roedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan weithredol yn yr holl sesiynau a arsylwyd gennym. Canfuom fod cyflenwi ymyriadau, yn gyffredinol, wedi cyfrannu at leihau aildroseddu.

Atodiad 1 - Cefndir yr arolygiad

Trefniadau arolygu

Mae'r rhaglen Cydarolygiad Llawn (FJI) yn arolygu gwaith troseddwyr ifanc, yn bennaf mewn achosion cymunedol ac achosion dan glo statudol, mewn nifer fach o ardaloedd awdurdodau lleol bob blwyddyn.

Mae mwyafrif y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid a ddewiswyd ar gyfer yr arolygiadau hyn yn cynnwys y rhai y mae eu perfformiad - yn seiliedig ar gyfraddau aildroseddu, Dangosyddion Canlyniadau Cyfiawnder Ieuenctid Cenedlaethol ac a gefnogir gan wybodaeth arall, fel arolygiadau diweddar - yn peri pryder sylweddol. O bryd i'w gilydd, rydym hefyd yn cynnwys ardaloedd sy'n perfformio'n dda i sefydlu meincnod o arfer da.

Prif ddiben y system cyfiawnder ieuenctid yw lleihau troseddu. Dyma brif thema'r arolygiad. Y themâu craidd eraill yw amddiffyn y cyhoedd, amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc, gan wneud yn sicr bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni ynghyd â llywodraethu a phartneriaethau.

Meini Prawf

Mae copi o'r meini prawf arolygu ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf EM:

http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-inspections/youth-inspection-programmes/inspecting-youth-offending-work/full-joint-inspection/

Methodoleg

Mae GauTI yn cael gwybod tua 11 diwrnod gwaith cyn i arolygiad ddigwydd.

Cafodd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ei wneud ar yr wythnosau oedd yn dechrau:

8 Chwefror, 2016 a 22 Chwefror, 2016.

Yn yr wythnos gwaith maes gyntaf buom yn edrych ar sampl gynrychioliadol o 27 o achosion unigol hyd at 12 mis oed, rhai ohonynt yn gyfredol a rhai eraill wedi'u terfynu. Roedd y sampl yn cynnwys nifer o'r rhai sydd yn risg uchel o niwed i eraill, rhai sy'n arbennig o agored i niwed, yn ferched ifanc, neu yn blant a phobl ifanc du ac o leiafrifoedd ethnig. Cafodd achosion eu hasesu gan dîm o staff arolygu. Fe wnaethant archwilio'r rhain lle bynnag yr oedd modd gyda rheolwyr achos, a wahoddwyd i drafod eu gwaith yn fanwl, egluro eu ffordd o feddwl a nodi tystiolaeth ategol yn y cofnod.

Fe wnaethom hefyd dderbyn copïau o ddogfennau lleol perthnasol.

Yn ystod yr wythnos yn y canol, cafodd y data o'r arolygiadau achos eu coladu a chafodd darlun am ansawdd gwaith y GTI ei ddatblygu.

Ail wythnos y gwaith maes yw elfen ar y cyd yr arolygiad. Ymunwyd ag Arolygiaeth Prawf EM gan arolygwyr o blith yr heddlu, gofal a chymorth, ac addysg. Cafodd materion iechyd eu harchwilio gan Arolygydd Prawf AEM. Fe wnaethom archwilio trywyddau ymholi a ddaeth i'r amlwg o'r arolygiadau achos. Cafodd elfennau arweinyddiaeth, rheoli a phartneriaeth yr arolygiad eu hasesu, gyda ffocws penodol ar leihau troseddu.

Fe wnaethom hefyd gasglu barn pobl eraill, gan gynnwys rheolwyr strategol, staff a defnyddwyr gwasanaethau, plant a phobl ifanc, rhieni / gofalwyr a dioddefwyr, ac arsylwi ar waith oedd yn digwydd. Ymgysylltwyd â defnyddwyr gwasanaeth gan arolygydd o Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Ar ddiwedd yr ail wythnos gwaith maes cyflwynwyd ein canfyddiadau i reolwyr strategol lleol, Tîm Rheoli'r GTI, staff y GTI a phartïon eraill â diddordeb.

Dull sgorio

Gellir cael manylion am sut y mae ein barnau arolygu yn cael eu gwneud ar ein gwefan.

http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-inspections/youth-inspection-programmes/inspecting-youth-offending-work/full-joint-inspection/

Trefniadau cyhoeddi

Mae adroddiad drafft yn cael ei anfon at y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid am sylwadau dair wythnos ar ôl yr arolygiad, a bydd yn cael ei gyhoeddi tua chwe wythnos yn ddiweddarach. Yn ogystal, mae copi yn mynd at y Gweinidogion perthnasol, arolygiaethau eraill, Grŵp Polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Sicrheir bod copïau ar gael i'r wasg ac ar ein gwefan.

Mae adroddiadau Arolygiadau Llawn ar y Cyd (FJI) yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg ac yn y Saesneg.

Mae rhagor o fanylion am sut mae'r arolygiadau hyn yn cael eu cynnal ar gael ar ein gwefan yn y ddogfen '*Framework for FJI Inspection Programme*' yn:

http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-inspections/youth-inspection-programmes/inspecting-youth-offending-work/full-joint-inspection/

Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer

Mae gwybodaeth am rôl Arolygiaeth Prawf EM a'n Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith, ysgrifennu at:

Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Atodiad 2

Diolchiadau

Arolygydd Arweiniol	Jon Nason, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*
Dirprwy Arolygydd Arweiniol	Caroline Nicklin, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*
Tîm Arolygu	Iolo Madoc-Jones, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* Avtar Singh, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* Tessa Webb OBE, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* Andy Griffiths, *Asesydd Lleol* Bobbie Jones, *Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru* Alun Connick, *Estyn* Tony Mulcahy, *Estyn* Ian Elliott, *Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi*
Gwasanaethau Cefnogi Prawf AEM	Adam Harvey, *Swyddog Gwasanaethau Cefnogi* Pippa Bennett, *Rheolwr Gwasanaethau Cynnal* Oliver Kenton, *Swyddog Ymchwil* Alex Pentecost, *Rheolwr Cyfathrebu*
Prif Arolygydd Cynorthwyol (Cyfiawnder Ieuenctid)	Alan MacDonald, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*